Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

THOMAS, JENKIN ('Siencyn Pen-hydd'; 1746 - 1807), pregethwr Methodistaidd

Enw: Jenkin Thomas
Ffugenw: Siencyn Pen-hydd
Dyddiad geni: 1746
Dyddiad marw: 1807
Priod: Catherine Thomas (née Lewis)
Rhiant: Thomas Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pregethwr Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 16 Medi 1746, mab Thomas Rees, Pen-hydd Fawr, Margam, Sir Forgannwg. Cafodd argyhoeddiad o dan weinidogaeth Evan Dafydd Evan, Ty'r-clai, a daeth o dan ddylanwad William Davies, curad Methodistaidd Castell Nedd. Ymunodd â'r gynulleidfa yng nghapel y Gyfylchi, a dechreuodd bregethu yn seiadau'r cylch. Priododd Catherine, merch John Lewis, Llanfihangel Ynys Afan, ac aeth i fyw i Aberafan am ysbaid. Symudodd oddi yno i'r Goetre, gerllaw hen gapel y Dyffryn, Tai-bach, lle y treuliodd weddill ei oes. Bu farw 26 Rhagfyr 1807, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfihangel Ynys Afan - Cwmafan heddiw. Yr oedd 'Siencyn Pen-hydd' yn un o bregethwyr hynotaf ei oes a daeth yn enwog trwy'r wlad ar gyfrif ei stranciau rhyfedd yn y seiadau, aflerwch ei ymddangosiad, a gerwindeb ei ddull fel pregethwr. Anfarwolwyd ef pan luniodd Edward Matthews gofiant iddo; a bu'r cofiant hwnnw yn faes darllen i do ar ôl to o Gymry.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

J. Lewis, *Marwnad am Jenkin Thomas* (1808), 1808

H. Bevan, *Ychydig hanes neu goffadwriaeth am amryw bethau neillduol a gymmerasant le ymhlith corph y Methodistiaid Calfinaidd yn ac o'u dechreuad, sef oddiar yr amser y daeth Mr. Howel Harries i bregethu yn ei droion cyntaf i amryw barthau o Sir Forganwg a'i chyffiniau* (Abertawe 1838), 17

E. Matthews, *Hanes Bywyd Siencyn Penhydd, neu Mr. Jenkin Thomas, o Benhydd, yn Sir Forganwg* (Pontypridd 1850)

G. Thomas, *Lloffyn olaf o faes hynafiaethau Capel y Gyfylchi, ger Pontrhydyfen, Port Talbot* (Treorchy 1899), 31, 68

Y Traethodydd, 1850, 67

Y Traethodydd, Ionawr 1953, 35-40

Darllen Pellach

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), ii, 116-128

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 49176136

Wikidata: Q28361471

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Roberts, G. M., (1953). THOMAS, JENKIN ('Siencyn Pen-hydd'; 1746 - 1807), pregethwr Methodistaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-JEN-1746

Copïo i'r clipfwrdd

Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATI

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government